



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG47851**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad atodol – crynodeb o'r ymateb

Cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob  
darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru

Ymgynghoriad atodol – digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

Gorffennaf 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth yn y digwyddiadau rhanddeiliaid ar gyfer ymgynghoriad atodol Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar elfennau technegol cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru.

Awdur: Sglein

# *sglein*★

Barn y rhanddeiliaid allweddol a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau sy'n cael ei mynegi yn yr adroddiad hwn, a gofnodwyd gan yr hwyluswyr. Nid dyma farn Llywodraeth Cymru o reidrwydd. Mae'r gwaith hwn yn grynodedd o'r sgysiau a gafwyd yn nigwyddiadau'r ymgynghoriad atodol a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm y Cynllun Trwyddedu Statudol  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UR

E-bost: [StatutoryLicensing@gov.wales](mailto:StatutoryLicensing@gov.wales)

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	4
2. Dull a methodoleg.....	6
3. Crynodeb o'r drafodaeth .....	7
Lefel y ffioedd i'w codi am drwydded, a sail y ffi .....	7
Pa mor aml y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu .....	11
Gorfodi.....	13
Prawf Person Cymwys a Phriodol.....	18
Cwestiwn ychwanegol: Beth yw manteision cyflwyno cynllun? .....	21
Sylwadau cyffredinol a wnaed yn ystod y tri digwyddiad .....	23
4. Atodiad A .....	26

# 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi gan Sglein ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhoi crynodeb sydd wedi'i baratoi'n annibynnol o'r trafodaethau yn y digwyddiadau rhanddeiliaid ar gyfer ymgynghoriad atodol Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar elfennau technegol cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru.
- 1.2 Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru gynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys llety gwyliau tymor byr. Y cynnig yw ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael trwydded i weithredu, a fyddai'n helpu i godi safonau ar draws y diwydiant, sicrhau diogelwch ymwelwyr a sicrhau tegwch i bob gweithredwr.
- 1.3 Yn dilyn yr [ymgynghoriad 13 wythnos](#) cychwynnol ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru, a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2022 ac 17 Mawrth 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru fod angen ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant twristiaeth, ar feysydd penodol sy'n ymwneud â datblygu polisi.
- 1.4 Yn dilyn hynny, cafodd tri digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb eu trefnu a'u cynnal yn y gogledd, y canolbarth a'r de rhwng 22 a 26 Mai 2023. Anfonwyd gwahoddiad at 300 o randdeiliaid allweddol o'r diwydiant twristiaeth, a oedd yn cynrychioli fforymau a chymdeithasau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr ar ran awdurdodau lleol, asiantaethau trefnu gwyliau ar-lein ac asiantaethau hunanddarpar. Roedd 58 o randdeiliaid allweddol wedi derbyn y gwahoddiad ac yn bresennol yn y digwyddiadau. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn cynrychioli nifer sylweddol o fusnesau twristiaeth yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth drawstoriadol o sectorau yn y diwydiant twristiaeth ledled Cymru.
- 1.5 Trefnwyd bod Sglein, cwmni hyfforddi, trefnu digwyddiadau ac ymgynghoriaeth, yn hwyluso'n annibynnol yn y tri digwyddiad. Bu Sglein yn

hwyluso dwy sesiwn grŵp yn ystod pob un o'r digwyddiadau, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar bedwar maes polisi yr oedd Llywodraeth Cymru am eu trafod yn fanylach, fel y nodwyd yn yr adroddiad sy'n dilyn.

- 1.6 Rôl Sglein fel hwylusydd oedd cadeirio'r drafodaeth, gofyn cyfres o gwestiynau a oedd wedi cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ar y pedwar pwnc hyn, a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu. Yr hwylusydd oedd yn gyfrifol am wneud nodiadau ym mhob digwyddiad, ac am ddarparu crynodeb o'r trafodaethau, sy'n cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad hwn.
- 1.7 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol ym mhob digwyddiad a sesiwn grŵp, i gyflawni rôl egluro, gan ateb unrhyw ymholiadau ffeithiol neu bwyntiau gan gyfranogwyr ynghylch y polisi neu'r ddogfen ymgynghori.

## 2. Dull a methodoleg

- 2.1 Cafodd Sglein ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru yn dilyn proses dendro i hwyluso'n annibynnol yn nhri digwyddiad yr ymgynghoriad atodol:
- Hilton Garden Inn, Dolgarrog, 22 Mai 2023
  - Y Pafiliwn Rhyngwladol, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 25 Mai 2023
  - Tŷ Melyn, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, 26 Mai 2023
- 2.2 Nod y digwyddiadau a hwyluswyd yn annibynnol oedd casglu rhagor o wybodaeth a thystiolaeth fanwl am y cynigion ac am gyflawni'r cynllun. Roedd 58 o randdeiliaid allweddol yn bresennol, a oedd yn cynrychioli fforymau a chymdeithasau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ym maes twristiaeth, yn ogystal â chynrychiolwyr ar ran awdurdodau lleol, asiantaethau trefnu gwyliau ar-lein ac asiantaethau hunanddarpar.
- 2.3 Bwriad pob digwyddiad oedd sicrhau bod y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol yn cael cyfle i gynnig eu barn, a bod y trafodaethau'n cael eu hwyluso er mwyn rhoi sylw i'r materion allweddol ac ateb y cwestiynau allweddol.
- 2.4 Gofynnwyd i'r grwpiau ym mhob digwyddiad ystyried y pedwar pwnc canlynol:-
1. Lefel y ffioedd i'w codi am drwydded, a sail y ffi
  2. Pa mor aml y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu
  3. Gorfodi cosbau am beidio â chydymffurfio, a lefel y cosbau
  4. Gofyniad i gael prawf person cymwys a phriodol er mwyn cael trwydded
- 2.5 Gwnaed hyn drwy ddefnyddio cyfres o gwestiynau a oedd yn gysylltiedig â phob pwnc, sydd i'w gweld isod.
- 2.6 Cafodd pob grŵp ddogfen a oedd yn egluro'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd/ardaloedd eraill o ran cofrestru/trwyddedu/ardystio, a chyfeiriwyd at y ddogfen yn ystod y sesiynau fel ffordd o sbarduno trafodaethau. Mae'n bosibl gweld copi o'r ddogfen yn [Atodiad A](#).

### **3. Crynodeb o'r drafodaeth**

#### **Lefel y ffioedd i'w codi am drwydded, a sail y ffi**

**A ddylai darparwyr llety ymwelwyr, fel y cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori, dalu'r un ffi safonol am drwydded neu a ddylai ffioedd trwydded fod ar raddfa?**

- 3.1 Cyn gofyn y cwestiynau a osodwyd, gwelwyd cysondeb yn y tri digwyddiad o ran croesawu'r cynllun yn ogystal â gwrthwynebiad cryf ar lafar i'r cysyniad o drwyddedu, gyda chofrestru yn amlwg yn cael ei ffafrio. Y rheswm am hynny oedd bod trwyddedu'n cael ei ystyried yn ffordd o roi caniatâd i weithredu yn hytrach na bod cofrestr wirfoddol o weithredwyr yn cael ei chreu. Serch hynny, croesawyd y syniad o gael trwydded neu rif cofrestru i ddangos cydymffurfiaeth, ac roedd hefyd yn cael ei ystyried yn ffordd o symbylu pobl i gymryd rhan. Roedd yn well gan y rheini a oedd yn bresennol bod y newid arfaethedig yn cael ei alw'n 'gynllun' ar gyfer gweddill y drafodaeth.
- 3.2 Dechreuodd Sglein drwy ofyn i bobl godi eu dwylo i ateb y cwestiwn hwn er mwyn dangos pa opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio – graddfa, neu ffioedd safonol. Roedd mwyafrif helaeth yn ffafrio graddfa.
- 3.3 Dyma rai o'r sylwadau: byddai'n dibynnu ar ba mor isel yw'r ffi, dylai'r ffi fod yn rhesymol ond ar raddfa, ac mae gan fusnesau mwy o faint gostau uwch yn barod – trethi eraill ac ati, felly a yw'n deg eu bod yn talu mwy? Dywedwyd bod pawb yn y sector yn cyflawni i'r un safon, beth bynnag yw maint y busnes. Un syniad oedd cadw hyn yn ôl Bandiau 1-5 – ee, Band 5 ar gyfer busnesau mwy, er enghraifft gwesty mawr â 200 o welyau, neu bentref gwyliau â dros 250 o gabanau, i lawr i Fand 1 ar gyfer busnes bach ag 1 bwthyn er enghraifft.
- 3.4 Os yw'r ffi'n cael ei gosod ar raddfa, dywedodd rhai y bydd yn haws dod o hyd i fusnesau mwy a'u cosbi, ac y byddant yn dargedau haws i'w dirwyo. Bydd busnesau llai yn mynd o dan y radar.
- 3.5 Mynegwyd pryder ynghylch lefel yr archwiliadau a awgrymwyd, ar gymhareb o 1 o bob 50 gweithredwr – ni fyddai'r diwydiant yn ystyried y cynllun yn un dibynadwy, a byddai angen i'r gost fod yn gymesur.

**Os bydd ffioedd trwyddedau'n cael eu gosod ar raddfa, ar ba sail y dylid pennu eu ffi (ar sail nifer yr ystafelloedd neu'r unedau sydd ganddynt a/neu yn ôl y math o lety sydd ar gael neu gyfanswm y lleoedd cysgu)?**

- 3.6 Cafwyd nifer o gwestiynau mewn ymateb i hynny – sut bydd yr holl fusnesau a meintiau yn cael eu nodi, ac a fydd pobl yn bod yn onest? Sut bydd darparwyr yn dangos tystiolaeth o'r hyn sydd ganddyn nhw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio? A yw cost weinyddol cydymffurfio yr un fath â'r gost i fusnes bach ac i fusnes mwy o faint?
- 3.7 Cafwyd sylw y dylai fod yn seiliedig ar faint yr eiddo, a pham y dylai gwely a brecwast ag un gwely dalu'r un faint â gwesty mawr? Wedi dweud hynny, gallai busnes hunanddarpar gael yr un nifer o welyau â gwesty bach. Hefyd, beth fyddai sefyllfa eiddo sy'n cael ei farchnata drwy lwyfannau archebu ar-lein, fel Airbnb, Booking.com, Vrbo, systemau archebu lleol ac ati, gan fod rhai'n gallu ennill £7k yr wythnos, a beth fyddai'n cael ei ystyried yn ystafell wely, oherwydd nid mewn ystafelloedd gwely yn unig y mae pobl yn cysgu ym mhob llety tymor byr? O ran gwyliau fferm, un sylw oedd y dylid cyfrifo ffioedd ar sail nifer yr elfennau gwahanol o fewn y busnes – ee, Gwely a Brecwast / Hunanddarpar / maes gweryslla. Awgrym arall oedd y gallai'r ffioedd fod yn seiliedig ar gyfanswm yr ymwelwyr – ee, yn ystod y flwyddyn ariannol / y flwyddyn diwethaf.
- 3.8 Teimlai rhai y dylai'r cynllun fod yn rhad ac am ddim os ydych yn eiddo Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru. Gallai gwelliannau cynaliadwyedd fod yn ffactor wrth bennu'r ffi, ac a allai busnes mwy cynaliadwy gael trwydded lefel uwch/well? Gwnaed sylw bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwynt gwerthu unigryw i Gymru sy'n ei gosod uwchlaw lleoliadau eraill ee, gofyniad i fodloni safonau amgylcheddol penodol – gellid cysylltu'r rhain â safonau ansawdd.
- 3.9 Os yw'r ffi'n rhy uchel neu os yw'r gofyniad yn rhy feichus, gellid colli busnesau o'r sector. Mae angen un system syml, genedlaethol nad yw'n rhy gymhleth. Bydd mwy o gymhlethdod yn golygu ei bod yn anoddach gorfodi'r system.

**Beth yw'r model tecaf – a oes ystod (isel i uchel) y dylai Llywodraeth Cymru ei hystyried? Er enghraifft, mae'r ffioedd yng Ngogledd**



**Iwerddon yn amrywio o £20 i £2000, gan ddibynnu ar faint y llety a'r math o lety**

- 3.10 Roedd y rheini nad oeddent eisiau talu unrhyw beth braidd yn amharod i ateb ar y dechrau, a theimlai rhai na fydd pobl yn cofrestru os oes ffi; fodd bynnag, y farn gyferbyniol oedd pwy fydd yn talu am hyn os yw ar gael am ddim? Oni ddylen ni fod yn talu am hyn o dan y Grant Uwch ar sail Poblogaeth, neu beth am dalu amdano drwy ddefnyddio derbyniadau TAW yn sgil ardrethi busnes neu dwristiaeth sy'n cael eu talu gan y sector? Roedd llawer yn cydnabod bod rhaid i hyn ariannu ei hun (soniwyd am Rhentu Doeth Cymru fel enghraifft), a bod angen teimlo ei bod werth talu lefel y ffi, a'i bod werth ei gorfodi. Soniwyd am ffigur o £100 ambell dro, gan awgrymu taliadau Debyd Uniongyrchol er mwyn gwneud hynny'n haws. Ni ddylai lefel y ffi fod yn uchel iawn – gwneud y busnes yn ddiogel i'w weithredu yw pwrpas y ffi. O ran ei natur, dylai'r gost fod mor isel â phosibl, yn gymesur ac yn briodol, a dylai fod o fewn cyrraedd hefyd ac ennyn hyder fod y cynllun yn un buddiol.
- 3.11 A fyddai modd cael cymhelliant i annog pobl i gymryd rhan – ee, math o ddyfarniad nod barcud a fyddai'n bwysig i fusnesau a defnyddwyr? Roedd rhwystredigaeth bod busnesau gonest yn cael eu targedu, yn hytrach na'r rheini yn y diwydiant sy'n gweithio o dan y radar, ac y mae'n ymddangos eu bod yn cuddio rhag yr awdurdodau. Mae ffi'n cosbi'r rheini sy'n buddsoddi i dyfu eu busnes, ac mae'n annheg â'r diwydiant.
- 3.12 Os ydych chi'n disgwyl i'r ardoll ymwelwyr dalu am hyn – ni fydd yn cael ei hailfuddsoddi yn y diwydiant.
- 3.13 Teimlwyd bod angen dull clir o ymgysylltu / hyrwyddo a chyfathrebu, gyda mwy o bwyslais ar y rhesymau dros gael y cynllun, nid dim ond ar gosbi a gorfodi.
- 3.14 Teimlwyd mai'r cwestiwn ynghylch lefel y ffioedd ddylai fod y cwestiwn olaf, unwaith y byddwn ni'n gwybod faint sy'n cymryd rhan a beth yw'r costau – ni all y sector bennu lefel y ffioedd cyn gwybod yn union beth y mae'n ei brynu.

**A ddylid cael strwythur ffioedd gwahanol ar gyfer trwyddedau cyfyngedig neu untro (er enghraifft, darparwyr sydd ond yn cynnig llety unwaith y flwyddyn – Sioe Frenhinol Cymru / yr Eisteddfod)?**

- 3.15 Teimlwyd y dylai darparwyr llety untro gael eu cynnwys yn y prif gynllun, fel eu bod hwythau hefyd yn cyfrannu at y rhesymau dros ei gyflwyno – tegwch, diogelwch ymwelwyr a chodi safonau – gan fod cwsmeriaid yn haeddu ac yn disgwyl yr un safonau yn y digwyddiadau hyn. Dywedwyd ein bod yn buddsoddi llawer mewn denu digwyddiadau mawr i Gymru, ac y dylai'r llety a gynigir yn y tymor byr adlewyrchu ansawdd y digwyddiadau hyn.
- 3.16 Teimlai rhai mai'r digwyddiad ei hun ddylai ddal y drwydded gan fod angen gallu darparu a chynnig llety o safon briodol ar draws pob math o ddarparwyr (gan gynnwys safleoedd gwerysyla, er nad oes angen i safleoedd dros dro sy'n cynnig llety am hyd at 28 diwrnod gael trwydded safle gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd.)
- 3.17 Fodd bynnag, pwy sy'n gwneud yn siŵr mai dim ond ar gyfer digwyddiadau untro y mae'r darparwyr hyn yn cynnig llety, ac nad ydynt yn gwneud hynny yn ystod gweddill y flwyddyn? A allai hefyd atal pobl rhag rhentu eu hystafelloedd o gwbl, ac a fyddai hyn yn effeithio ar lwyddiant y digwyddiadau hyn? Cafwyd sylw hefyd y gallai effeithio ar y pwerau gorfodi pe bai eithriadau'n cael eu gwneud. Gofynnwyd a fyddai'n rhaid i'r digwyddiadau untro hyn gasglu'r ardoll ymwelwyr, ac a fyddai mwy o ddarparwyr a ddylai fod yn rhan o'r cynllun hwn yn dod i'r amlwg yn sgil hynny?

**Beth am feysydd carafannau sydd eisoes angen trwyddedau safle i weithredu – a ddylen nhw orfod talu am drwydded o dan y cynllun hwn?**

- 3.18 Y consensws oedd y dylai parciau carafannau gael trwydded (er y cydnabuwyd bod rhai perchnogion safleoedd carafannau eisoes yn gwario mwy na £1200 y flwyddyn ar gostau gwahanol gynlluniau aelodaeth), ac os bydd unigolion yn gosod eu carafannau, y dylent hwythau hefyd gael trwydded unigol eu hunain.

**A oes unrhyw amgylchiadau eraill lle na fyddai'n briodol codi ffi am drwydded?**

- 3.19 Soniwyd am eiddo ar gyfer cartrefu ffoaduriaid a chyfnewid tai. Mae angen i'r eiddo yma hefyd fod yn ddiogel a chyrraedd safon benodol os yw pobl yn aros yn yr eiddo. Ni ddylai eiddo sy'n cael ei ddefnyddio dim ond i gartrefu

ffoaduriaid gael ei ystyried o fewn cwmpas y cynllun. Mae elfen fasnachol i'r broses Cyfnewid Tai – ee, costau asiantaeth, a dylid cynnwys hynny o fewn paramedrau'r drwydded.

### **Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg – Lefel y ffioedd i'w codi am drwydded, a sail y ffi**

3.20 Dyma'r themâu allweddol:

1. Mae'n well gan y diwydiant y gair cofrestru na thrwyddedu
2. Dylai'r ffi fod yn seiliedig ar faint y busnes
3. Dylid cynnwys darparwyr untro yn y strwythurau ffioedd ar raddfa er mwyn sicrhau safonau cyson

### **Pa mor aml y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu**

**Ydych chi'n cytuno bod cylch adnewyddu o dair blynedd yn briodol, neu a ddylai busnesau orfod adnewyddu'n flynyddol er mwyn helpu i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol bob amser?**

- 3.21 Roedd ansicrwydd ynghylch pam mai tair blynedd yw'r cyfnod dan sylw, gan fod y tystysgrifau angenrheidiol, yr yswiriant ac ati yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol yn achos pob darparwr. Byddai'n well gan rai ddwy flynedd a mwy i leihau'r baich gweinyddol ychwanegol.
- 3.22 Teimlai llawer o bobl fod hunanddatganiad yn fwy priodol (dyna yw'r sefyllfa ar gyfer perchnogion safleoedd carafannau ar hyn o bryd) i gadarnhau bod y gwahanol ofynion ar waith. Byddai'r hunanddatganiad yn gallu cael ei lwytho i fyny i ddangosfwrdd cynhwysfawr y gall defnyddwyr unigol gael mynediad ato, fel rhan o gynllun cenedlaethol i osgoi unrhyw amrywiadau rhanbarthol. Byddai'r dangosfwrdd yn gallu cael ei ddiweddarau'n flynyddol, a gallai gael ei ddefnyddio fel hunanddatganiad. Gofynnwyd a allai Deallusrwydd Artiffisial helpu'r system fonitro – wrth ymuno ar y cychwyn yn ogystal â'r broses adnewyddu. Hefyd, a oes ffordd o groesgyfeirio â rhestr o geisiadau cynllunio a ganiatawyd er mwyn dod o hyd i fwy o gyfranogwyr posibl?
- 3.23 Teimlwyd mai cyflwyno fesul cam fyddai'n gweithio orau, er mwyn osgoi pwysau ar y system wrth i bawb adnewyddu a diweddarau ar yr un pryd.

- 3.24 Awgrymwyd mai cwmnïau yswiriant ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod tystysgrifau fel diogelwch tân/nwy yn eu lle cyn adnewyddu yswiriant y darparwyr, a gellir cynnwys hyn yn y cynllun. Ni ofynnir am dystiolaeth o'r fath ar hyn o bryd, ond byddai peidio â chael hynny yn gallu peryglu unrhyw hawliad.
- 3.25 I sicrhau bod y data'n gyfredol, awgrymwyd bod negeseuon atgoffa 'ydych chi'n dal i redeg busnes?' yn cael eu hanfon.
- 3.26 Awgrymwyd y byddai diffyg uniondeb a pherchnogaeth gyda thrwydded untro.
- 3.27 Os yw'n ffi untro, gofynnwyd sut bydd y cynllun yn gwneud digon o arian i dalu am y costau parhaus? Dywedwyd hefyd bod y ffioedd ar gyfer sefydlu'r cynllun yn mynd i fod yn uchel dros ben – ynghyd â'r gost ar gyfer gorfodi.

**Ai trwydded untro ddylai'r drwydded hon fod, ac ai dim ond os yw perchnogaeth neu amgylchiadau'n newid ddylai darparwyr ailymgeisio? (byddai trwydded untro yn costio llai i'w gweithredu, ond gallai danseilio nodau'r cynllun).**

- 3.28 Roedd cael ffi gofrestru untro gyda ffi flynyddol barhaus is wedi hynny yn syniad poblogaidd, gydag opsiwn cynllun talu drwy Ddebyd Uniongyrchol hefyd yn cael ei awgrymu.
- 3.29 Teimlwyd bod angen annog darparwyr i'w hatgoffa i ddiweddarau, a bod perygl i safonau lithro os nad oes ffocws. Teimlai eraill nad oedd pob trwydded yn atgoffa pobl i adnewyddu.
- 3.30 Un o fanteision y cynllun fyddai codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n ofynnol i redeg busnes sy'n cydymffurfio ac yn cael ei ddiogelu'n llwyr, ar y cychwyn ac ar lefel barhaus.

**A ddylid rhoi 'ad-daliad' os bydd busnesau'n rhoi'r gorau i fasnachu o fewn cyfnod y drwydded?**

- 3.31 Nid oedd neb mewn unrhyw ddigwyddiad yn teimlo bod angen ad-daliad, a dylai'r ffi fod yn rhan o gostau rhedeg y busnes o flwyddyn i flwyddyn.

**Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg – Pa mor aml y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu**

- 3.32 Dyma'r themâu allweddol:
1. System flynyddol oedd yn cael ei ffafrio, gan fod nifer o safonau/rheoliadau cyfredol eisoes yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol
  2. Roedd dyhead am system syml sy'n galluogi darparwyr i ddiweddarau eu gwybodaeth yn ddigidol ar ddangosfwrdd
  3. Bydd modd cadw'r ffocws os bydd archwiliadau rheolaidd, yn hytrach na chynllun untro

## **Gorfodi**

### **Pryd y byddai'n briodol gorfodi a/neu ddirymu trwydded? Neu pa faterion ddylai arwain at gosb yn eich barn chi?**

- 3.33 Teimlwyd bod angen gorfodi ac y dylid targedu diffyg cydymffurfio, ond y dylid gwahaniaethu rhwng gweithredoedd damweiniol a rhai bwriadol. Pan fydd gweithredoedd damweiniol, bydd angen cymorth ar weithredwyr a'u hatgoffa, a phan fydd gweithredoedd bwriadol, bydd angen camau gorfodi difrifol.
- 3.34 Os bu digwyddiad mewn eiddo a oedd mynd yn groes i'r gofynion cydymffurfio, dylid dirymu trwydded yr eiddo.
- 3.35 Roedd gorfodi hefyd yn cael ei ystyried yn air cryf/llym iawn – dylid dangos bod y cynllun yn gymhelliant i fod yn y diwydiant – gwneud rhywbeth sy'n gwobrwyo pobl ac sy'n gyfle gwych i farchnata. Byddai angen gweithio'n frwd gyda busnesau er mwyn iddyn nhw wella eu gwasanaeth.
- 3.36 Y cais oedd cadw'r cynllun yn syml, a'i bod yn well osgoi sefyllfa o apeliadau a hawliadau gan fod delio ag apeliadau, asesu'r gallu i dalu ac ati yn golygu llawer o waith gan bobl, ac felly cost ychwanegol. Gallai gorfodi arwain at gynnydd enfawr yng nghost y ffi a'r cynllun yn ehangach.
- 3.37 Dylai fod yn gynllun cofrestru sylfaenol – os na fyddwch chi'n llwytho dogfennau i fyny, bydd yna system rhybudd tri cham, bydd e-bost yn cael ei anfon, ac ar ôl 28 diwrnod bydd llythyr yn cael ei anfon, gyda thrydydd rhybudd yn dilyn hynny – dull tri chyfle cyn cosbi. Awgrym arall oedd y dylid cyhoeddi hysbysiad gwella yn gyntaf (gan roi amser i unioni'r sefyllfa), gyda hysbysiad atal yn dilyn hynny ac wedyn dirwyon.

- 3.38 Mae angen i'r rheini sy'n troseddu dro ar ôl tro / nad ydynt yn ymgysylltu, neu sy'n achosi niwed, gael eu gwahardd o'r cynllun am gyfnod, ac felly eu hatal rhag masnachu. Byddai hyn yn atal y rheini sy'n troseddu dro ar ôl tro rhag talu dirwy nifer o weithiau a pharhau i fasnachu.
- 3.39 Gallai gorfodi olygu diddymu rhif trwydded / y posibilrwydd o gau fel pen draw'r broses orfodi. Dylai gweithredwyr gael eu hatgoffa os yw eu tystysgrifau ar fin dod i ben, ac mae pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan os yw'r broses gofrestru'n teimlo'n ysgafnach ac yn fwy hwylus. Rhaid rhoi hyfforddiant / arweiniad / addysgu cyn cyflwyno cynllun – does dim disgwyl i weithredwyr gydymffurfio â rhywbeth nad ydyn nhw'n ei ddeall.
- 3.40 Mae angen egluro'r gofynion sylfaenol yn ogystal â'r safonau ansawdd i anelu atynt, ac mae angen gwerthu'r cynllun fel rhywbeth cadarnhaol, gan restru'r manteision i ddarparwyr yn ogystal â chwsmeriaid. Mae angen cael cydbwysedd rhwng gorfodi a chefnogi / annog a datgymell. Mae angen bod yn ofalus nad yw pobl yn cael eu dychryn o'r diwydiant, ac nad yw'r cynllun yn cael ei ystyried yn fygythiad. Yn achos unrhyw gynllun, mae angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol ohono, ac ni ddylai'r broses orfodi greu diwydiant o weinyddu. Mae angen i'r cynllun ddod o hyd i'r rheini sy'n ceisio cuddio o dan y radar – y rhai rhwng yr 16,500 rydym yn gwybod amdanynt a'r 30-40,000 nad ydym yn gwybod amdanynt.
- 3.41 Teimlwyd nad oes gan awdurdodau lleol yr adnoddau/y gweithlu i orfodi (ee, dim digon o adnoddau i ddelio â chwynion mawr parhaus yn ymwneud â chynllunio), ac y byddai gorfodaeth genedlaethol yn lleihau'r pwysau arnynt, yn enwedig gan eu bod wedi cael eu henwebu i gasglu'r ardoll ymwelwyr.
- 3.42 Pa adnoddau (cyllid a dynol) fydd eu hangen i orfodi, a beth am y pwysau ar y system gyfreithiol a'r llysoedd ledled Cymru? Gallai gweithredwyr hefyd ofyn am adolygiad barnwrol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau priodol ar gyfer hyn – beth yw'r model adnoddau ar gyfer y broses orfodi?
- 3.43 Gofynnwyd a oes dadl dros gael Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru yn brif awdurdod ar gyfer cydymffurfio, ond y dylai'r Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod yn rhan o'r broses pan fydd achosion o dorri'r gyfraith? Os oes achos o dorri'r gyfraith, rhaid delio â hynny.

- 3.44 Mae pwerau gorfodi eisoes yn bodoli mewn llawer o achosion, a does dim angen dirwyon gan y byddai hyn yn galw am system apelio ac yn ychwanegu at gostau gweithredwyr.
- 3.45 Sut bydd y cynllun yn dod o hyd i'r gweithredwyr hynny y mae angen cymryd camau gorfodi ar eu cyfer? Os nad yw rhywun wedi'i gofrestru, sut bydd y cynllun yn gwybod amdanynt? Dim ond syniad bras sydd gan Awdurdodau Lleol o'r stoc gwelyau, ac nid ydynt bellach yn cael cymorth ariannol, dim ond cymorth o ran methodoleg gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolygon o'r stoc gwelyau.
- 3.46 Mae angen i'r rheini sy'n troseddu'n fwriadol gael eu targedu â rhybuddion, dirwyon a gwaharddebau/dirymu trwydded. Teimlwyd bod angen i ddirwyon fod yn fwy na chost y drwydded, neu ni fyddai cymhelliant i gydymffurfio.
- 3.47 Teimlwyd nad yw archwiliadau dirybudd ar 1 o bob 50 yn ddigon o orfodaeth. Fodd bynnag, os yw pawb wedi llwytho'r dogfennau i fyny, roedd y cyfranogwyr yn credu y dylai system ddigidol allu gwirio hynny – dylai Awdurdodau Lleol wedyn fynd ati i gymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sydd heb gofrestru.

**Wrth ystyried yr enghreifftiau mewn manau eraill, oes gennych chi unrhyw farn ynghylch lefel y dirwyon neu'r cosbau (gan gynnwys dirymu trwydded dros dro/yn barhaol) a fyddai'n briodol?**

- 3.48 Roedd amharodrwydd i ymrwymo i union symiau gan fod ansicrwydd ynghylch cwmpas a maint y cynllun, sydd wedi bod yn her o'r cychwyn cyntaf.
- 3.49 Teimlwyd y dylent fod ar lefel sy'n annog darparwyr i gofrestru, y dylent fod yn gymharol sylweddol; yn achos darparwyr mwy o faint, dylent fod yn gymesur â'u maint. Ni fydd rhai busnesau mawr yn poeni am ddirwyon os ydyn nhw'n rhy fach.
- 3.50 Cafwyd safbwyntiau cyferbyniol ar seilio dirwyon neu gosbau ar elw blynyddol, gyda rhai'n cytuno â hyn ac eisiau prawf gan CTheF, ac eraill yn dweud nad yw'n syniad da gan fod busnesau'n gallu dewis datgan eu bod yn ddi-elw.
- 3.51 Mae model gorfodi Gogledd Iwerddon yn ymddangos yn un teg.

- 3.52 Dylai dirwyon neu gosbau fod yn ddigon i berswadio pobl i gydymffurfio, ac ni ddylent fod yn gysylltiedig ag incwm masnachu.
- 3.53 Peidiwch â dirwyo – colli ei rif trwydded yw'r unig beth ddylai ddigwydd i weithredwr – ond rhaid i Asiantaethau Trefnu Gwyliau Ar-lein gydymffurfio er mwyn i hyn weithio. Dros amser, bydd cwsmeriaid yn gofyn pam nad oes gan y busnes hwn rif trwydded.
- 3.54 Y gosb y dylech ei chael yw peidio â chael eich trwydded.
- 3.55 Mae angen i ni ystyried sut mae'r cynlluniau hyn yn gweithio i wledydd/ardaloedd eraill ac a ydyn nhw'n gweithio, a sut groeso gafodd y cynlluniau yn y diwydiant. Mae angen rhannu'r wybodaeth hon â'r diwydiant. Ychwanegodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y sgysiau hyn yn digwydd.
- 3.56 Mae angen ystyried hefyd pwy sy'n cael dirwy – y perchennog, y rheini sy'n isosod, llety tymor byr ac asiantaethau eraill? Ni ddylid rhoi dirwyon i fusnesau – dylai'r rheini nad ydynt yn cyrraedd y safonau gael cynnig cyfleoedd hyfforddiant yn lle hynny.

**A ddylid cael graddfa o ddirwyon/cosbau sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb a/neu nifer yr achosion o beidio â chydymffurfio?**

- 3.57 Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau – gan gynnwys y dylid cael ystod o ddirwyon – yn dibynnu ar faint yr eiddo a/neu ar drosiant, a gwahanol ddirwyon wrth droseddu am y tro cyntaf wrth gymharu â'r rheini sy'n troseddu dro ar ôl tro. Un cwestiwn oedd a fydd rhestr o droseddau yn gysylltiedig â dirwyon?
- 3.58 Teimlai eraill y dylai dirwyon fod yn seiliedig ar ddifrifoldeb a nifer y troseddau, ac y dylent fod yn deg, yn gymesur ac yn briodol, a chael eu pennu fesul haen.
- 3.59 Teimlwyd bod cael mecanwaith allanol ar gyfer dirwyon yn gymhleth iawn, ac y byddai'n well cael rhybuddion graddol sy'n arwain at ddirwyon – ee, 3 cham, gan godi ffioedd gweinyddol ar gyfer pob neges atgoffa fel nad yw'r gost yn cael ei throsglwyddo i fusnesau sydd yn cydymffurfio.
- 3.60 Awgrymodd rhai y dylai dirwyon fod yn gymesur â llwyddiant y busnes, ond y dylid eu defnyddio fel opsiwn olaf.
- 3.61 Teimlwyd hefyd bod angen proses apelio glir ac annibynnol.



**A oes ystyriaethau eraill o ran delio â diffyg cydymffurfio? Er enghraifft, a fyddai'n briodol cael system sy'n seiliedig ar bwyntiau? A fyddai angen i ddarparwr gyrraedd nifer penodol o bwyntiau cyn bod dirwyon/cosbau yn berthnasol?**

- 3.62 Nid oedd system seiliedig ar bwyntiau yn cael ei ffafrio, gan ei bod yn cael ei hystyried yn rhy gymhleth ac yn opsiwn a fyddai'n gofyn am lawer o adnoddau.
- 3.63 Mynegwyd pryder ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i fynd ar ôl gweithredwyr sydd ond yn gweithredu am noson neu ddwy.

**A allai peidio â thalu'r ardoll ymwelwyr (os/pan fydd yn cael ei chyflwyno) fod yn rheswm dros ddirymu trwydded?**

- 3.64 Teimlwyd yn gyffredinol y dylai peidio â thalu'r ardoll olygu bod trwydded yn cael ei dirymu – wedi'i sefydlu mewn deddfwriaeth yn yr un modd â thalu trethi eraill. Teimlai eraill y dylai dirwyon am beidio â thalu'r ardoll ymwelwyr ddibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am wneud y taliad, gydag eraill yn teimlo na ddylai peidio â thalu'r ardoll ymwelwyr fod yn rheswm dros ddirymu trwydded, gan nad y gweithredwr yw'r person sy'n ei chasglu o bosibl – er enghraifft, pan ddefnyddir asiantaethau.
- 3.65 Roedd pryder hefyd mai'r unig beth y gall gweithredwyr ei wneud yw casglu'r ardoll ymwelwyr gan nifer y gwesteion a ddatganwyd (gall gwesteion ddweud celwydd), ac na allant warantu faint fydd yn yr eiddo (ar yr amod nad oes mwy yno na'r uchafswm ar gyfer yr eiddo) – ni ddylai hyn fod yn berthnasol i berchennog yr eiddo; y gwestai ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb.
- 3.66 Yr unig beth y gall darparwyr ei wneud yw casglu'r ardoll ymwelwyr yn onest ar sail yr wybodaeth maen nhw wedi'i chael – ee, gallai llety hunanddarpar a archebwyd ar gyfer chwe pherson olygu bod gwahanol bobl yn cyrraedd ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod y mae'r llety wedi'i archebu.
- 3.67 Ni all y gweithredwr fod yn gyfrifol am y ffurflen ardoll ymwelwyr – os profir yn ddiweddarach ei bod yn anghywir, nid bai y gweithredwr yw hynny, felly ni ddylai fod yn berthnasol gan ei bod yn anodd i'r busnes weinyddu hyn – ee, sut mae'n gwybod bod yr Asiantaeth Trefnu Gwyliau Ar-lein yn bendant wedi talu'r ardoll?

- 3.68 Ni all gweithredwyr fod yn gyfrifol am ffurflenni ardoll oni bai eu bod yn cael enwau a chyfeiriadau gwesteion. Hefyd, oherwydd bod gan weithredwyr lawer o ffynonellau archebu, ar ddiwedd y flwyddyn, byddent yn talu pwy bynnag sy'n casglu'r ardoll, a byddai Asiantaethau Trefnu Gwyliau Ar-lein/Asiantaethau Trefnu Gwyliau Wyneb yn Wyneb yn talu pwy bynnag y dywedir y dylent eu talu.
- 3.69 Peidiwch â chysylltu'r ddau beth hyn, oherwydd dydyn ni ddim yn gwybod beth ydyw na sut bydd yn cael ei wneud – dydy hynny ddim o fewn ein gallu.

### **Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg – Gorfodi**

- 3.70 Dyma'r themâu allweddol:
1. Mae angen dull pendant o weithredu – gyda darparwyr yn methu gweithredu heb drwydded
  2. Mae angen i hyn ddigwydd ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb, ac mae angen darparu digon o adnoddau
  3. Roedd gorfodi yn cael ei hystyried yn derm cryf iawn – angen edrych ar annog, cefnogi a chymell

### **Prawf Person Cymwys a Phriodol**

**Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol cynnwys prawf person cymwys a phriodol fel rhan o unrhyw gynllun trwyddedu ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr?**

- 3.71 Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar hyn, gyda rhai'n teimlo y gallai dull cynnil o weithredu fod yn bosibilrwydd. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod y prawf yn ymarferol, ac nid yw'n bodoli mewn meysydd eraill lle mae cyswllt â chwsmeriaid. Gwnaed nifer o sylwadau am y cyfiawnhad dros gynnwys Prawf Person Cymwys a Phriodol – beth fydd yn ei gyflawni, a beth mae'n ceisio ei atal / sicrhau a fydd yn digwydd? Beth yw'r broblem rydym yn delio â hi sy'n galw am hyn / beth yw'r broblem rydym yn ceisio ei datrys? Beth yw'r diffiniad o Gymwys a Phriodol?
- 3.72 A yw'n plismona ei hun? Mae angen rhif trwydded ar weithredwr er mwyn hysbysebu; os oes gan rywun gŵyn, byddai'r awdurdod yn delio â'r mater

- (ee, Croeso Cymru neu'r Awdurdod Lleol), ac os byddai rhywbeth amhriodol yn digwydd byddent yn cynnwys yr heddlu neu'n cael gwared ar y drwydded.
- 3.73 Pa sectorau eraill yn yr economi ymwelwyr sy'n gorfod cael Prawf Person Cymwys a Phriodol? Nid yw'n gymesur â'r cynllun ac mae'n ychwanegu haenau
- 3.74 Gwnaed y sylw nad yw Prawf Person Cymwys a Phriodol yn gyson â chynllun cofrestru, oherwydd mae'n ymddangos ei fod yn ychwanegu mwy o lwyth gwaith a haenau diangen – dydy hyn ddim yn cadw pethau'n syml. Byddai angen proses apelio a sefydlu proses weinyddol, hyfforddiant ac ati.
- 3.75 Efallai y byddai Lletywr Cymwys a Phriodol yn fwy addas.
- 3.76 Y llysoedd ddylai benderfynu pwy sy'n gymwys a phriodol, nid y Llywodraeth
- 3.77 Teimlwyd bod awdurdodau eraill (ee, yr heddlu) yn delio â materion sy'n codi ac na fyddai Prawf Person Cymwys a Phriodol yn berthnasol i hynny, ond y byddai'n ychwanegu lefel arall o reoleiddio. Gwnaed y sylw bod yr elfen Diogelu yn cynnig dilysrwydd, ond bod archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ond o fudd gwirioneddol ar y diwrnod y cafodd ei gyhoeddi. Roedd yn cael ei ystyried yn rhwystr ychwanegol diangen o ran recriwtio staff, a byddai'n rhoi pwysau ar yr awdurdod archwilio (DBS). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol yn achos llety gwely a brecwast lle mae pobl yn aros yn eich cartref eich hun. Byddai elfen o ddyblygu gan fod rhai darparwyr eisoes yn cael archwiliadau DBS.

**Os felly, i bwy y dylai fod yn berthnasol (ee, yn yr Alban mae'n rhaid i'r cais am drwydded enwi'r lletywr/gweithredwr, y perchennog, unrhyw bartneriaid/cyfarwyddwyr cwmni, y rheini sy'n ymwneud â'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd (teulu, ffrindiau, asiantaeth ac ati) ac mae'n rhaid i bob un ohonyn nhw gael prawf person cymwys a phriodol)?**

- 3.78 Roedd model yr Alban yn cael ei ystyried yn un eithafol a llym iawn (yn agosach at y lefel a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer rhedeg lleoliad gofal / gweithio gydag oedolion a phlant agored i niwed), ac nad yw'n adlewyrchu natur y diwydiant – a fyddai'r Prawf Person Cymwys a Phriodol yn berthnasol i staff ad-hoc neu staff a gyflogir am gyfnod byr iawn? Beth os byddwn ni'n newid yr asiantaeth/glanhwr – a fyddai'n rhaid cofrestru eto gydag unigolion newydd sy'n gorfod cael Prawf Person Cymwys a Phriodol?

Beth am berchnogion sy'n byw yn Lloegr ond nad ydyn nhw'n dod i gyswllt o gwbl â gwesteion o ddydd i ddydd? Teimlwyd bod Prawf Person Cymwys a Phriodol yn codi llawer o gwestiynau – un opsiwn posibl ar gyfer cofrestru fyddai cyrsiau diogelu (ddim o reidrwydd yn orfodol) i wella ansawdd ac ennyn hyder ym mhrofiad ymwelwyr.

- 3.79 Os oes rhywun wedi gwneud y Prawf Person Cymwys a Phriodol drwy Rhentu Doeth Cymru, a fyddai'n rhaid iddo wneud y prawf eto?
- 3.80 Methu dychmygu pam y byddai ei angen ar gyfer eiddo hunanddarpar.
- 3.81 Mae pobl eisoes yn cael eu fetio yn y sector parciau gwyliau / cartrefi gwyliau (ond mae hyn yn ymwneud â gosod eiddo yn y tymor hir)
- 3.82 Mae gan ddarparwyr lefelau gwahanol o sgil/cyfrifoldeb/hyfforddiant o ran Prawf Person Cymwys a Phriodol, mae angen haenau sy'n seiliedig ar y math o lety, ac ni ddylai'r ffocws fod ar yr unigolyn o reidrwydd.
- 3.83 Mynegwyd pryder y gallai'r baich deddfwriaethol ychwanegol olygu bod darparwyr yn gadael y diwydiant – gwelir hyn eisoes wrth i lety tymor byr gymryd lle perchnogion/darparwyr llety tymor hir. Dangosodd arolwg ymwelwyr diweddar yn Abertawe gynnydd ym mhoblogrwydd llety hunanddarpar, gydag 80 o safleoedd tymor byr yn cael eu marchnata ar lwyfannau ar-lein poblogaidd yn y Mwmbwls yn unig. Mae llawer wedi gadael y diwydiant llety ymwelwyr yn dilyn newid y dosbarthiad ar gyfer llety hunanddarpar, ac mae'r diwydiant hefyd wedi colli ffydd yn y broses ymgynghori o ganlyniad i hynny.
- 3.84 Ni ddylid defnyddio Prawf Person Cymwys a Phriodol ar gyfer gweithredwr yr ardoll ymwelwyr – peidiwch â chysylltu'r prawf â mecanweithiau talu trethi.

**A oes angen i ymwelwyr sy'n defnyddio llety yn y tymor byr gael yr un lefelau o warchodaeth â'r rheini sy'n rhentu eu prif breswylfa yn y tymor hir? (ee, faint o gyswllt fyddai ymwelwyr yn ei gael â'r darparwr? Yn aml yn achos llety tymor byr llai o faint, does dim angen i'r gwesteion weld y darparwr er mwyn cael mynediad a/neu mae gan y llety flwch casglu allwedd. Anaml iawn y byddai'r rheini sy'n defnyddio gwestai yn dod i gyswllt â'r darparwr)**

- 3.85 Ni ddylid cyflwyno Prawf Person Cymwys a Phriodol ar sail lefel y cyswllt – gall natur y cyswllt fod yn fyrdymor iawn, neu mae'n bosibl na fydd cyswllt o

gwbl. Yn achos y rhan fwyaf o letyau tymor byr, nid yw'r perchennog ar y safle.

- 3.86 Mae'n siŵr bod y defnydd o Prawf Person Cymwys a Phriodol yn amrywio yn ôl y llety a gynigir. Mae'n bosibl na fydd perchnogion hunanddarpar hyd yn oed yn gweld eu gwesteion, ac mewn gwesty mawr er enghraifft, byddai tîm rheoli i gysylltu â nhw os byddai problemau'n codi.

**I grynhoi, mae tri opsiwn y gellid eu hystyried. Beth yw eich barn chi:**

- **Gwneud dim – beth yw'r goblygiadau posibl?**
- **Dull cynnil o weithredu – drwy ofyn i ddarparwyr hunanardystio, ac edrych ymhellach ar hynny os bydd angen?**
- **Proses lawn – gofyn i ddarparwyr cael archwiliad DBS a llwytho'r dystysgrif i fyny?**

- 3.87 Roedd yn amlwg iawn mai'r dull cynnil oedd yn cael ei ffafrio.

**A oes opsiynau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried?**

- 3.88 Ni awgrymwyd unrhyw opsiynau pellach i Lywodraeth Cymru eu hystyried mewn perthynas â'r Prawf Person Cymwys a Phriodol.

**Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg – Prawf Person Cymwys a Phriodol**

- 3.89 Dyma'r themâu allweddol:

1. Beth yw'r broblem y mae Prawf Person Cymwys a Phriodol yn ceisio mynd i'r afael â hi/ei datrys?
2. Mae angen i unrhyw system fod yn syml heb ofynion diangen, ac mae angen hyfforddiant/arweiniad i'w hategu
3. Dull cynnil oedd yn cael ei ffafrio

**Cwestiwn ychwanegol: Beth yw manteision cyflwyno cynllun?**

- 3.90 O ganlyniad i'r trafodaethau yn y ddau ddigwyddiad cyntaf, yn y trydydd digwyddiad gofynnodd Sglein gwestiwn penodol ar fanteision y cynllun er

mwyn sbarduno trafodaeth, cael barn a chlywed llais pawb yn yr ystafell cyn dechrau.

- 3.91 Croesawyd y cynllun yn gyffredinol, gyda'i fanteision yn cael eu hystyried yn niferus. Roedd y manteision hyn yn cynnwys sicrhau tegwch, codi safonau, cyfathrebu'n well â'r sector a datblygu mwy o ymwybyddiaeth o faint a chwmpas y diwydiant, er mwyn i'r cynllun roi darlun cywir o'r holl ddarparwyr.
- 3.92 Soniwyd am godi safonau a datblygu/diogelu enw da'r sector mewn perthynas â chynnydd mewn cwynion yn sir Benfro – ystyriwyd y gallai'r cynllun helpu'r diwydiant i godi safonau, rhoi sylw i ddiffyg bodlonrwydd ymysg ymwelwyr a chyfyngu ar niwed i enw da. Mae'r sector yn poeni am yr unigolion hynny sy'n dwyn anfri ar ei enw da, ac mae'n gweld y cynllun fel ffordd o fynd i'r afael â hyn. Bydd darparwyr gonest yn cydymffurfio, bydd eraill yn cael eu datgelu. Mae angen annog cwsmeriaid, drwy hysbysebion, i chwilio am rif y drwydded wrth archebu.
- 3.93 Ystyriwyd bod y cynllun yn cyd-fynd ag amrywiol gymdeithasau aelodaeth sydd eisoes yn gofyn am wybodaeth debyg.
- 3.94 Gwnaed cymhariaeth â Rhentu Doeth Cymru, sydd wedi arwain at landlordiaid nad oeddent yn bodloni'r safonau yn gorfod gadael y cynllun. Fodd bynnag, un o ganlyniadau hyn yw bod rhai o'r landlordiaid hyn wedi dod yn ddarparwyr llety tymor byr achlysurol. Dylai'r cynllun arfaethedig sicrhau tegwch yng nghyswllt llety tymor byr, sy'n galluogi ymwelwyr i ddisgwyl safonau uwch a chyson. Soniwyd am gartrefi modur hefyd mewn perthynas â'r angen i'w cynnwys yn y cynllun.
- 3.95 Dywedwyd nad yw Awdurdodau Lleol yn gwybod beth yw eu stoc gwelyau, ac y gallai cynllun fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y data. Hefyd, gallai Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r data a gasglwyd i greu pecynnau cymorth defnyddiol ar gyfer y sector. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol chwilio ar y we a thrwy ffynonellau eraill i gael darlun o'r ddarpariaeth llety sydd ar gael ar hyn o bryd, ac mae hyn yn ddrud ac yn cymryd amser. Gwnaed y pwynt hefyd bod angen ystyried yr effaith ar Awdurdodau Lleol wrth gyflwyno cynllun, gan eu bod yn wynebu anawsterau o ran staffio a chyllidebau ar hyn o bryd.
- 3.96 Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei chasglu drwy'r cynllun ar gael i'r sector cyhoeddus drwyddo draw ar hyn o bryd, er bod bylchau o hyd

o ran y data a'r wybodaeth – ee, nid yw Awdurdodau Lleol yn gwybod a yw'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor yn fusnesau ynteu'n gartrefi preswyl. Mae angen dod â'r wybodaeth honno ynghyd – ee, Cyllid a Thollau EF, Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

- 3.97 Un o fanteision hirdymor ymddangosiadol eraill unrhyw gynllun oedd mwy o ffydd ymysg cwsmeriaid, yn debyg i'r hyn a welwyd gyda Sgoriau Hylendid Bwyd y cynllun 'Scores on the Doors'.
- 3.98 Teimlwyd bod angen creu'r cynllun mewn ffordd sy'n ei wneud yn addas i Gymru, yn hytrach na chopio'r hyn y mae ardaloedd/gwledydd eraill wedi'i wneud. Soniwyd dro ar ôl tro am y profiad yn yr Alban, a oedd yn cael ei ystyried yn gyson fel rhywbeth negyddol a llym dros ben.
- 3.99 Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd i ddeall cynlluniau'r naill a'r llall neu, yn ddelfrydol, gael dull gweithredu tebyg neu union yr un fath.

### **Sylwadau cyffredinol a wnaed yn ystod y tri digwyddiad**

- 3.100 Y sylw mwyaf rheolaidd ac a fynegwyd gryfaf ym mhob un o'r tri digwyddiad oedd bod pobl o blaid cofrestru, ond yn gwrthwynebu cynllun trwyddedu.
- 3.101 Mynegwyd pryder gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli eu haelodau-ddarparwyr ynghylch y costau a'r gwaith papur ychwanegol a fyddai'n dod yn sgil cynllun trwyddedu. Hefyd, roedd teimlad y byddai angen deall egwyddorion unrhyw gynllun a chytuno arnynt. Awgrymwyd y dylid cyfuno'r cynllun â chynllun Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru, a bod angen eglurder ynghylch maint y diwydiant er mwyn gosod y cwmpas cyn creu deddfwriaeth.
- 3.102 O ran natur unrhyw gynllun, cafwyd cais dro ar ôl tro am ddull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan sy'n syml, yn integredig ac yn gyson heb gosbi. Gofynnwyd cwestiwn am y cymhellion i sicrhau bod y rheini sy'n gweithio o dan y radar ar hyn o bryd yn cydymffurfio ac yn cael trwydded.
- 3.103 Soniwyd am orfodi'r cynllun a'r gallu i'w orfodi, gan wneud y pwynt bod Awdurdodau Lleol yn gorfod is-gontractio staff i orfodi cynlluniau eraill, gan gynnwys 'Scores on the Doors' (sgoriau hylendid bwyd). Hefyd, roedd pryder y gallai rolau gael eu dyblygu os bydd y cynllun yn arwain at nifer o dimau'n gorfodi safonau sy'n union yr un fath ar draws gwahanol gynlluniau.

- 3.104 Lleisiwyd pryderon ynghylch natur y broses ymgynghori, ac er bod grwpiau ac unigolion yn rhannu eu barn a'u hawgrymiadau, bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i bwriad gwreiddiol. Mae'r diwydiant wedi colli ffydd yn sgil hynny. Cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch lefel yr ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol, gyda rhai'n teimlo bod 1500 yn isel o ystyried nifer y darparwyr, ac eraill yn teimlo bod y ffigur hwn yn cymharu'n ffafriol ag ymgynghoriadau eraill. Gwnaed sylw am y diffyg cynrychiolaeth wleidyddol yn nigwyddiadau'r ymgynghoriad atodol er mwyn sicrhau perchnogaeth wleidyddol.
- 3.105 Beth yw 'cyfrifoldeb / perchnogaeth gyfreithiol' Llywodraeth Cymru, os mai Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi'r drwydded, ai'r Llywodraeth sy'n gyfrifol os bydd pethau'n mynd o'i le?
- 3.106 Dywedwyd y dylid cynnal cynllun peilot yn gyntaf i weld beth yw'r budd.
- 3.107 Gwnaed y sylw bod y diwydiant am gael Cynllun Cofrestru Statudol heb gost. Y brif neges oedd y gallai hyn fod o fudd enfawr, a'i fod yn gyfle gwych i ddangos grym economaidd y diwydiant.
- 3.108 Roedd y syniad o gael sticer yn y ffenestr i ddangos bod gan yr eiddo drwydded yn un poblogaidd.
- 3.109 Gwnaed cymhariaeth â'r drwydded metel sgrap a gyflwynwyd tua 15 mlynedd yn ôl, a sut yr oedd hynny wedi effeithio ar y sector – daeth nifer o fusnesau i'r golwg yn sgil y broses gofrestru ddi-dâl, ond doedd prin neb wedi cofrestru ar ôl cyflwyno ffi.
- 3.110 Mae adnoddau'n broblem i Awdurdodau Lleol o ran gorfodi – maen nhw eisoes wedi cyflwyno ffigurau o'r costau tebygol yn eu barn nhw. Mae angen cyllideb a dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer gorfodi – llai biwrocraataidd, ac mae'n atal gwahanol Awdurdodau Lleol rhag rhoi'r cynlluniau ar waith mewn ffyrdd gwahanol fel maen nhw'n gweld.
- 3.111 Gwnaed y pwynt nad oedd gweithredwyr gonest eisiau talu am archwilio a gorfodi'r rheini nad ydynt yn cofrestru. Fodd bynnag, roedd rhai'n gweld hyn fel y gost i fusnesau o sicrhau tegwch o safbwynt cyfreithiol a diogelwch.
- 3.112 Roedd pryder y bydd y cynllun yn arwain at gostau uwch i weithredwyr ar ben yr ardoll ymwelwyr. Mae angen i ymwelwyr weld manteision dod i Gymru wrth gymharu â lleoliadau eraill.



- 3.113 Gwnaed y sylw nad ydyn nhw am weld y cynllun trwyddedu yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol gau darparwr heb yr awdurdod priodol.
- 3.114 Gwnaed cymhariaeth â landlordiaid preifat lle mae'n amlwg a yw landlord yn cydymffurfio – nid oes proses ar gyfer rhentu eiddo yn achlysurol.
- 3.115 Cymharwyd hefyd ag elfennau gorfodi eraill mewn Awdurdodau Lleol, er enghraifft – mae rhai wedi'u dirprwyo o'r Prif Swyddog Gweithredol i lawr, ac mae rhai yn swyddogaethau sy'n seiliedig ar bwyllgor. Mae hyn yn golygu dod â phobl at ei gilydd ar gyfer yr apêl a'u hyfforddi i allu delio â'r broses apelio.
- 3.116 Codwyd pwyntiau ynghylch gorfodaeth ac Asiantaethau Trefnu Gwyliau Ar-lein/unrhyw gyrff marchnata/asiantaethau archebu – ai dim ond i'r busnesau y bydd y broses orfodi'n berthnasol, neu a fydd hefyd yn berthnasol i'r llwyfannau sy'n eu hyrwyddo os nad oes ganddyn nhw drwydded? Dylai fod rhywfaint o gyfrifoldeb ar Asiantaethau Trefnu Gwyliau Ar-lein/trydydd partion/asiantaethau i sicrhau nad yw gweithredwyr heb rif trwydded yn cael eu harddangos/rhestru.
- 3.117 Beth os yw busnes wedi rhoi'r gorau i fasnachu ond yn dal i ymddangos ar safle neu mewn llyfryn? Mae Asiantaethau Trefnu Gwyliau Ar-lein yn enwog am barhau i ddangos manylion gweithredwyr ar ôl iddyn nhw roi'r gorau i fasnachu.
- 3.118 Roedd pryder hefyd y gallai'r drwydded (ee, peidio â'i hadnewyddu) atal busnes presennol rhag cael ei werthu. Ai'r eiddo ynteu'r person sy'n cael ei drwyddedu? Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y posibilrwydd o gapio eiddo, pan nad yw trwyddedau wedi cael eu hadnewyddu er mwyn lleihau/capio nifer yr eiddo gweithredol.

## 4. Atodiad A

Gwlad/Ardal	Cynigion neu gynllun wedi'i gadarnhau	Cynllun yn dechrau/ diweddarau ddiwethaf (blwyddyn)	Gorfodol neu ddewisol	Pa eiddo sydd wedi'i gofrestru?	Pwy/beth sydd wedi'i gofrestru?	Oes yna eithriadau?	Math o gofrestru (trwydded/ ardystio ac ati)	Ffi	Angen tystiolaeth	Safonau	Tymor cofrestru	Fframwaith y cynllun yn cael ei weinyddu	Sut mae cydymffurfio yn cael ei fonitro?	Beth yw'r camau gorfodi?	A yw'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus?
Gweriniaeth Iwerddon	Cynigiwyd	Ch1 2024 (i'w gadarnhau)	Gorfodol	Unrhyw eiddo a gynigir ar gyfer llety am gyfnodau o hyd at ac yn cynnwys 21 noson	Fesul uned (ystafell/fflat/cwch ac ati)	Gosodiadau dros 21 diwrnod	Cofrestru	Ydy, mae'n debygol o fod fesul uned	Hunan-ddatganiad	Yn dibynnu ar y math o lety	Blynyddol	Cenedlaethol	Cenedlaethol	Sifil - cosb ariannol	Mae'n debyg ond i'w gadarnhau (mae cofrestrau eraill y maent yn berchen arnynt ar gael i'w lawrlwytho)
Lloegr	Cynigiwyd	2024													
Yr Alban	Gweithredwyd	2022	Gorfodol	Gosodiadau byr	Fesul uned (ystafell/fflat/cwch ac ati)	Aparthotels, bwthyn, trwyddedig ar gyfer carafanau, trwyddedig ar gyfer alcohol	Trwydded	A osodwyd gan yr Awdurdod Lleol	Ardystio diogelwch gwasanaethau dŵr, tân, nwy a thrydanol, safonau diogelwch / atgyweirio, yswiriant adeiladu ac atebolrwydd cyhoeddus ac ati	Nodwyd yn y dystiolaeth ofynnol	Tair blynedd	Awdurdod Lleol	Awdurdod Lleol	Atal neu ddirymu'r drwydded	Ydy, lefel Awdurdod Lleol Mae Llywodraeth Yr Alban yn casglu data gan Awdurdodau Lleol ac yn ystyried amlder, cwmpas a fformat cyhoeddiad ystadegol swyddogol.
Guernsey	Gweithredwyd	2017	Gorfodol	Pob llety i ymwelwyr	Fesul uned (ystafell/fflat/cwch ac ati)	Na	Trwydded	£9.35 y person sy'n lletya (parhaol) £55 y cartref (llety tymor byr/cartref preifat)	Hunan-ddatganiad	Wedi'i nodi mewn canllawiau statudol	Blynyddol	Cenedlaethol	Cenedlaethol	Canslo, atal neu amrywiant unrhyw un neu bob un o'r amodau trwydded	Methu dod o hyd i dystiolaeth bod y gofrestr wedi'i chysylltu â'r wefan dwristiaeth
Ynys Manaw	Gweithredwyd	2016	Gorfodol	Pob llety i ymwelwyr / llety digwyddiadau dros dro	Fesul gwersyll / gwesty / llety gwesty / cartref	Na	Ardystio	Mae'n dechrau ar £25 y flwyddyn yn dibynnu ar yr eiddo	Ymweliad ymgynghorol a hunan-ddatganiad	Wedi'i nodi mewn canllawiau statudol	Blynyddol neu eifflwydd	Cenedlaethol	Cenedlaethol	Canslo, atal neu amrywiant unrhyw un neu bob un o'r amodau ardystio	le, hysbysebu busnes cofrestredig ar wefan twristiaeth
Gogledd Iwerddon	Gweithredwyd	1992 / 2011	Gorfodol	Pob llety i ymwelwyr	Fesul uned (ystafell/fflat/cwch ac ati)	Unrhyw awyren, llong, trênn neu gerbyd modur lle nad yw llety cysgu yn cael ei osod yn barhaol neu ei angori mewn unrhyw le	Ardystio	£20-£45 yr uned, hyd at uchafswm o x10 - Mae lefel y Ffi yn dibynnu ar y categori llety sy'n cael ei archwilio	Hunan-ddatganiad ac arolygiad	Wedi'i nodi yn y rheoliad	Pedair blynedd	Cenedlaethol	Cenedlaethol	Dirymu'r dystysgrif	le, hysbysebu busnes cofrestredig ar wefan twristiaeth
Jersey	Gweithredwyd	1990	Gorfodol	Llety i dwristiaid a ddefnyddir fel gwesty, tai gwestai, uned hunanddarpar, gwersyll	Yr eiddo	Sefydliadau addysgol ac unrhyw fangre lle darperir llety am wobr ar unrhyw adeg ar gyfer 5 person neu lai	Ardystio	£2 yn ogystal â £4.39-£7.88 wedi'i luosi gan nifer y bobl y gellir eu lletya ar y safle	Arolygiad	Nodir yn y ddeddfwriaeth	Blynyddol	Cenedlaethol	<a href="https://www.jerseylaw.je/laws/current/Pages/05.850.aspx">https://www.jerseylaw.je/laws/current/Pages/05.850.aspx</a>	<a href="https://www.jerseylaw.je/laws/current/Pages/05.850.aspx">https://www.jerseylaw.je/laws/current/Pages/05.850.aspx</a>	Methu dod o hyd i dystiolaeth, heblaw am restr o wersyll - <a href="https://www.jersey.com/places-to-stay/listings/">https://www.jersey.com/places-to-stay/listings/</a>